# Cyngor Sir Ynys Môn

## Swydd disgrifiad / Manyleb person

## Rhan A

**Teitl swydd:** Cydlynydd Caffi Creu (Ffiws)

**Rhif y swydd:**

**Gwasanaeth / Adain:** Dysgu / Llyfrgelloedd

**Graddfa:**

## Pwrpas cyffredinol y swydd

Cydlynu defnydd a rheolaeth dydd i ddydd y Caffi Creu (Ffiws) yn Neuadd y Farchnad, Caergybi.

Cyfrifoldeb llwyr dros gynllunio, trefnu a chynnal sesiynau a gweithdai gyda'r offer yn y Caffi Creu gyda ffocws ar greu, trwsio ac ail-ddefnyddio.

Bod yn gyfrifol am waith trefnu sesiynau ar gyfer grwpiau amrywiol a'u cyflwyno ar y lefel gywir yn unol â'u anghenion.

Gwasanaethu a chynnal a chadw yr offer i gyd yn unol â chanllawiau'r cynhyrchwyr.

**Cyffredinol:** *Cydymffurfio â Pholisi Diogelu Corfforaethol yr awdurdod lleol a'r dyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu y mae'r polisi hwnnw'n ei roi ar bob gweithiwr, gan gydweddu â gwerthoedd craidd yr Awdurdod sy'n cynnwys cefnogi plant, oedolion a all fod mewn perygl a'u teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel ac iach.*

## Prif ddyletswyddau / cyfrifoldebau

Cynnal dyddiadur o weithgareddau sydd ar agor i'r cyhoedd gan ymateb i ofynion unigolion a grwpiau.

Gofal dydd i ddydd o'r offer gan gynnwys unrhyw waith cynnal a chadw syml i'w cadw'n gweithio yn effeithiol.

Sicrhau rheolaeth o Iechyd a Diogelwch pawb wrth ddefnyddio'r offer gan gynnwys unrhyw asesiadau risg ar gyfer offer penodol a grwpiau fel bo'r angen.

Cydlynu amseroedd agor y gofod gyda Partneriaid

Hyrwyddo'r Caffi Creu i grwpiau, sefydliadau ac unigolion a chreu cynnwys cyfryngau cymdeithasol i'w rhannu ar sianeli y Gwasanaeth Llyfrgell a'r Cyngor i hyrwyddo defnydd o'r adnoddau.

Adnabod, hyfforddi a rheoli gwirfoddolwyr, yn unol â pholisiau’r Cyngor, i gefnogi eraill i ddefnyddio’r offer.

Hyfforddi gweithwyr o fewn y Gwasanaeth Llyfrgell yn ehangach i ddefnyddio’r offer yn effeithiol.

Cofnodi ac adrodd ar ddefnydd y Caffi Creu gan gynnwys manylion ansoddol a meintiol yn rheolaidd er mwyn mesur effaith a llwyddiant y cynllun peilot.

## Manyleb person

| **Addysg a hyfforddiant**<br>**Y gofynion addysgol/ proffesiynol neu’r cymwysterau galwedigaethol sylfaenol ar gyfer y swydd:** | **Hanfodol (H)**<br>**Dymunol (D)** |
|---|---|
| 1. 5 TGAU Gradd C neu uwch i gynnwys Saesneg, Mathamateg a TGCh / Gwyddoniaeth Cyfrifiadurol | H |
| 2. Cymhwyster neu brofiad health y gellir ei dystio mewn Dylunio Graffeg/Dylunio Cyfrifiadurol (CAD) | H |

| **Unrhyw hyfforddiant penodol sy’n ofynnol ar gyfer y swydd yn cynnwys ardystiad:** | **Hanfodol (H)**<br>**Dymunol (D)** |
|---|---|
| 1. TAR neu Dystysgrif Addysg Oedolion | D |
| 2. | |

| **Gofynion cymhwysedd allweddol**<br>**Gwybodaeth swydd-gysylltiedig sy’n hanfodol:** | **Hanfodol (H)**<br>**Dymunol (D)** |
|---|---|
| 1. Profiad health o weithio gydag offer dylunio creadigol amrywiol a’r gallu i drosglwyddo’r sgiliau yna i grwpiau gwahanol yn blant ac oedolion | H |
| 2. Dealltwriaeth drylwyr o Iechyd a Diogelwch a rheoli risgiau sydd yn berthnasol i’r offer yn y Caffi Creu (Argraffwr 3D, Gweisg poeth< argraffwr sychdarth, Torrwyr arbennigol, peiriannau gwnïo i enwi ychydig) | |
| 3. Gwybodaeth drylwyr am ddyfeisiau a rhaglenni dylunio creadigol megis: Coral Draw, Publisher ac Illustrator | H |
| 4. Sgiliau gofal cwsmer a rhyngbersonol uchel | H |
| 5. Profiad o weithio o fewn y sector Addysg neu Gofal Cymdeithasol | D |
| 6. Profiad wedi ei brofi o reoli calendr a threfnu digwyddiadau | H |

| Sgiliau penodol: | Hanfodol (H) Dymunol (D) |
|---|---|
| 1.Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn y Gymraeg a Saesneg gyda phobl o bob oedran | H |
| 2.Y gallu i gaffael a throsglwyddo gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol | H |
| 3.Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm | H |
| 4.Profiad o weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus | H |
| 5.Profiad o reoli a hyfforddi gwirfoddolwyr | D |
| 6 . Y gallu i gyflwyno gwybodaeth ar ffurf adroddiadau mewn dull gryno a chynhwysfawr. | D |

## Safle yn y sefydliad

**Adrodd i:** Llyfrgellydd: Addysg Oedolion, Llyfrgelloedd Cymunedol, Digidol

**Staff a oruchwylir:** Dim

## Trefniadau ac amodau gweithio

**Wythnos waith:** Unrhyw 5 diwrnod allan o 7. Dydd Llun i Ddydd Sul

**Lleoliad gwaith dynodedig:** Llyfrgell Caergybi, Neuadd y Farchnad

**Oriau cytundebol:** 25 awr (amserlen i'w gytuno)

## Gofynion iaith

**Sgiliau iaith Gymraeg** (gweler y fframwaith sgiliau ynghlwm os gwelwch yn dda)

| Sgil | Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrando** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| **Darllen** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| **Siarad** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| **Ysgrifennu** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

**Sgiliau iaith Saesneg** (gweler y fframwaith sgiliau ynghlwm os gwelwch yn dda)

| Sgil | Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrando** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| **Darllen** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| **Siarad** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |
| **Ysgrifennu** (Ticiwch un) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☒ | ☐ |

## Hyblygrwydd

Tynnir eich sylw at y ffaith fod mewn rhai achosion ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n anodd eu diffinio a gallent amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau a lefel y cyfrifoldebau dan sylw. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol ar i bob gweithiwr dderbyn elfen o hyblygrwydd mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau a phan fo angen cyfnewid oddi mewn i'r sefydliad er mwyn cwrdd ag anghenion a gofynion y gwasanaeth. Bydd y fath ofynion yn golygu y bydd arbenigedd penodol deilydd y swydd yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio i'r eithaf er budd y cyflogwr a'r gweithiwr fel ei gilydd.

**Dyddiad paratoi'r ddogfen disgrifiad swydd hon: 19/07/2024**

## Sgiliau iaith – Lefelau asesiad swydd

### (i) Gwrando

| Lefel | Diffiniad |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn Gymraeg / Saesneg |
| 2 | Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn Gymraeg / Saesneg |
| 3 | Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg rhugl |
| 4 | Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp |
| 5 | Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith |

### (ii) Darllen

| Lefel | Diffiniad |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, e.e. arwyddion neu nodiadau byr a syml |
| 2 | Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf) |
| 3 | Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur |
| 4 | Yn gallu darllen y mwyafrif o ddeunydd yn eich maes eich hun |
| 5 | Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith |

### (iii) Siarad

| Lefel | Diffiniad |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol [cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd] |
| 2 | Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith |
| 3 | Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol |
| 4 | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg |
| 5 | Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen |

### (iv) Ysgrifennu

| Lefel | Diffiniad |
|---|---|
| 0 | Dim sgiliau |
| 1 | Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol |
| 2 | Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth |
| 3 | Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol |
| 4 | Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda pheth cymorth gwirio |
| 5 | Medrus – yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio |